

Canlyniad prawf alergedd i benisilin: Negatif

Yn ddiweddar cawsoch brawf am alergedd i benisilin.
Mae eich canlyniad yn cadarnhau:

Nad oes gennych alergedd uniongyrchol neu ddifrifol i benisilin

Beth mae hyn yn ei olygu?

Nid yw eich risg o gael adwaith alergaidd i benisilin yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Mae hyn yn golygu, os bydd angen triniaeth arnoch ar gyfer haint bacterol yn y dyfodol, byddwch yn gallu cymryd gwrthfotigau sy'n cynnwys penisilin.

O hyn ymlaen, nid oes angen i chi ddweud wrth staff gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch fod gennych alergedd i benisilin; er enghraifft, os ewch i'r ysbyty.

Os cawsoch sgil-ffeithiau pan wnaethoch gymryd penisilin yn y gorffennol, megis teimlo'n sâl (cyfog), efallai y byddwch am ddweud wrth eich tîm gofal iechyd amdanynt o hyd. Efallai y rhoddir meddyginiaeth i chi i'w chymryd gyda'r gwrthfotigau i leihau eu sgil-ffeithiau.

Beth sy'n digwydd nawr?

Byddwn yn anfon llythyr at eich meddyg teulu i roi canlyniadau'r prawf iddynt, ac i ofyn iddynt ddiweddarau eich cofnod meddygol i ddileu 'alergedd penisilin'. Byddwn hefyd yn dileu 'alergedd penisilin' o'ch cofnod ysbyty.

Dywedwch wrth unrhyw staff gofal iechyd eraill a allai ragnodi neu roi meddyginiaethau i chi yn y dyfodol fod eich cofnod alergedd wedi'i ddiweddarau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prawf ar gyfer alergedd i benisilin, neu gwestiynau am eich canlyniad a beth mae hynny'n ei olygu i chi, siaradwch ag aelod o'n tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch.